# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 27.9.24

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:690: Presennol**: Iwan Pughe Jones (Cadeirydd) Gareth Wyn Jones, Deryck Lewis, William Owen, Bedwyr Fychan, Paul Hughes, Gareth Owen, Aled Griffiths, Huw Williams Sandra Evans (Clerc)

**19:692: Ymddiheuriadau**: Glyn Jones, Elwyn Vaughan, Gwenfair Rhys-Davies, Rhodri Wigley, Gwen Lloyd, Aeron Pughe, Dafydd Evans.

**19:693: Materion Personol** Mae'r Cyngor yn falch iawn o weld bod Aled yn gwella ar ôl damwain yn ddiweddar ac mae pawb yn dymuno'n dda iddo.

**19:694: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:695: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Mehefin 2024**

**19:696: Materion yn codi o'r cofnodion. Nodwyd bod y cyfarfod wedi dirwyn i ben am 9.20**

**19:697: Adroddiad y Clerc -**Mae diffib Darowen ar y gweill ond nid yw'r Cyngor eto wedi cael dyddiad gosod gan Gyngor Sir Powys o hyd.

**19:698: Cynllunio**: nodwyd bod wal ger Perorin oedd yn berygl i'r cyhoedd erbyn hyn wedi cael ei symud.

**19:699: Cyfarfod Ysbytai a Gofal Bro Ddyfi** Yn dilyn cryn bryder yn yr ardal am newidiadau arfaethedig ar gyfer trosglwyddo cleifion Bro Ddyfi sy'n barod ddychwelyd adref i ysbytai yng Nghanolbarth a De Powys, Llandrindod, Llanfair ym Muallt ac Aberhonddu, cafwyd cyfarfod teilwng iawn yn Neuadd Glantwymyn 22.8.24. Cadeiriwyd y cyfarfod yn fedrus iawn gan Iwan Pughe Jones ac o ganlyniad cafwyd noson hwyliog er gwaethaf difrifoldeb y pryderon a dwysedd y teimladau.

Daeth pedwar cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Powys gan gynnwys Hayley Thomas (Prif Swyddog Gweithredol) a Carl Cooper (Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys). Yn cynrychioli Iechyd Bro Ddyfi oedd Lucy Cockram, Dr. Sara Bradbury-Willis a Dr. Shaw. Daeth 80- 100 o bobl ynghyd o wahannol rannau o'r Canolbarth gan gynnwys Cynghorwyr Sir o Bowys a Gwynedd a Chynghorwyr Cynghorau Cymuned Glantwymyn, Llanbrynmair, a Mallwyd a chynrychiolwyr y Fforwm Cleifion. Mynegodd nifer o aelodau seneddol diddordeb yn y digwyddiad hefyd gan ofyn am ddiweddariad er nad oedd modd iddynt fynychu ar y noson.

Yn ystod y drafodaeth daeth yn amlwg bod ansicrwydd a phryderon maith o ganlyniad y datblygiadau newydd. Ym mhlith y pryderon hynny gan oedd diffyg rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd a diffyg caniatau amser priodol ar gyfer ymateb gan Iechyd Bro Ddyfi. Dywedodd y Bwrdd Iechyd nad dyna oedd eu bwriad. Nid oedd rhaid wrth ymgynghoriad cyhoeddus gan mai camau dros dro fyddai'r rhain. Mynegwyd pryder gan rai byddai cynlluniau 'dros dro' yn cael eu troi'n ddistaw yn gynlluniau parhaol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd mai cyfnod treialu oedd hwn yn unig. Tybiodd eraill mai ymgais i fodloni Llywodraeth Caerdydd oedd hwn gan fod y Bwrdd Iechyd yn atebol iddynt am eu gwariant a byddai cynllunio'r fath yn ymddangos fel bod modd arbed costau. Mewn gwirionedd canran fechan o'r gwariant fyddai'r datblygiad hwn a thybed oedd hynny'n ddigonol i'w ganiatau ag ystyried yr effeithiau anffuddiol a ddeuai yn ei sgil.

Cydnabu'r Bwrdd Iechyd bod gofal cleifion wrth adael ysbytai yn hollbwysig ac y gallai oedi bod yn andwyol iddynt o ran gwella yn gorfforol ac yn feddyliol. Mynegodd meddygon Bro Ddyfi bryderon y byddent yn colli eu hawl i benderfynu dyfodol cleifion Bro Ddyfi. Ceisiwyd lleddfu eu meddyliau gan y Bwrdd Iechyd gan gynnig sicrwydd na fyddai Ysbyty Bro Ddyfi'n cael ei heffeithio.

Cododd cwestiynau am rôl y gwasanaethau cymdeithasol a'r Cyngor Sir mewn llunio a gweithredu pecynnau gofal er galluogi cleifio i ddychwelyd adre. I ba raddau y mae hyn yn cyfrannu at y broblem?

Tynnwyd sylw at ddiffyg gofalwyr addas a bod teuluoedd felly yn gofalu am aelodau teulu yn aml.

Cynigiwyd y dylid cynnal rhaglen o ymgysylltu â disgyblion ysgolion i greu diddordeb pobl ifanc mewn gyrfa yn y maes.

Penderfynodd y Bwrdd Iechyd gohirio dyddiad cau'r ymgyngoriad tan ganol mis Medi. Nodwyd y gellir cysylltu â Hayley Thomas unrhyw bryd https://pthb.nhs.wales/contact-us/feedback-and-complaints/

Bu'r noson yn llwyddiant o ran rhannu gwybodaeth a mynegi barn. Cafwyd cyfle Iechyd Bro Ddyfi a'r Bwrdd Iechyd siarad yn uniongyrchol.

Derbyniodd CCG ddiolch gan Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanbrynmair a'r Bwrdd Iechyd am drefnu'r cyfarfod.

Teimlad y Cyngor yw bod angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r modd mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei redeg a'i ariannu. Mae'r hollt rhwng

ariannu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i oedolion yn gwastraffu arian ac adnoddau.

Bydd CC Glantwymyn yn cyfathrebu ymhellach ag aelodau seneddol i fynegi'r pryderon hyn.

## 19:699: Materion ariannol ac eitemau i'w talu

- Diweddariad Ariannol

**Diweddariad Ariannol CCG a'r Gwynt Medi 2024**

| **Cyfrif** | **Rhif y cyfrif** | **Datganiad banc** | **Balans – datganiad banc** | **Sieciau heb eu cyflwyno** | **Derbyn/talu** | **Balans gwirioneddol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CCG current | 80405019 | 11.9.24 | £12,167.92 | • 101433 S.Evans Cyflog Mai £290.70<br>• 10144 Costau £121.20<br>• 101446<br>• Cyflog Gorffennaf £251.20<br>• Cyflog Mehefin £283.20 – dim siec eto<br>-----------------<br><br>*Cynnwys yr isod am nad ydw i'n eu gweld ar y statements. Hola i'r hanes – posib bod y rhain wedi'i cynnwys mewn anfoneb diweddarach. - cymryd bod nhw wedi'u talu – dim ond eu nodi yma*<br>• *Un Llais Cymru £268.00*<br>*101430*<br>• *Glovers ure £46.42*<br>*101431*<br>• *101432* | Praespt £4,833.00 (30.8.24) | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • *WR Partners £113.40* | | |
| | | | | Cyfanswm £946.30 | | £11,221.62 |
| CCG savings | 80405035 | 11.9.24 | £1,151.58 | | Llog £4.29 | £1,151.58 |
| Gwynt current | 40052604 | 11.9.24 | £2287.22 | 100325 Capel Same £300.00 100326 Ysgol Bro Ddyfi – Yr Urdd 450.00 | | £1,537.22 |
| | | | | £750.00 | | |
| Gwynt savings | 60849707 | 11.9.24 | £19,444.66 | | Llog £72.45 | £19,444.66 |
| Mynwent Llanwrin | 40500941 | 11.9.24 | £1,835.08 | | Llog £6.84 | £1,835.08 |

• Yswiriant £1,297.42 (Infois 537219101) Hiscox Insurance Company Limited 28/09/24 - 27/09/24

- Yswiriant diogelwch seiber – Cytunwyd y dylid cael yr yswiriant hwn. Ceir amcanbris ar gyfer hwn ar wahân.
- Cyflog y Clerc Mis Mehefin (Mis 3) £283.20 (Heb ei dalu) Mis Awst (Mis 5) £220.40
- Awdit Cymru £305 (ar gyfer 2017-2018), £305 a £1852.25 (ar gyfer 2018-2019), £305 (ar gyfer 2019-2020), £342 (ar gyfer 2020-2021) Cytunwyd y dylid gohirio'r taliad a gofyn pam fod cymaint o oedi wrth ddanfon anfonebau hanesyddol. Gofynnir hefyd oes modd talu mewn rhannau gan fod swm o'r fath heb gael ei gynnwys yn y praesept blynyddol ac am ddadansoddi'r costau ar gyfer 2018-2019 ac eglurhad pam fod y swm cymaint yn uwch. Cymaint yw pryder y cyngor maent yn ystyried codi'r mater gyda swyddogion y swyddfa archwilio.
- Arfon Hughes Cyfieithu ar y pryd Cyfarfod Ysbytai £85.00. Mynegwyd gwerthfawrogiad mawr o'r gwasanaeth a ddarparwyd. Anfonir llythyr i ddiolch.
- Paul Hughes -Torri gwair £2,880 mynwentydd Darowen a Llanwrin.
- Cytunwyd y ar yr uchod yn unfrydol

**19700: Torri gwair mynwentydd 2024-2025** Hysbysebir y gwaith ddiwedd y flwyddyn yn ôl yr arfer.

**19701: Gohebiaeth** – Derbyniwyd neges gan Gymdeithas Gwarchod y Gymdogaeth Dyfed-Powys. Penderfynwyd peidio â chyfrannu ymhellach gan fod pres yn cael ei dynnu o'r praesept y Cyngor Sir.

**19702:** Parc Chwarae Cemaes – Mynegwyd pryderon dirfawr am ddiogelwch plant wrth gyrraedd y parc ac am ddiogelwch yn y pentref yn gyffredinol achos cyflymder y traffig. Am yr ail dro cafwyd bod car yn sownd ar ben y bont ger yr hen bost. Gofynnir am bafin yn ymestyn o dir Maes y Llan at y parc Cynigiwyd fel isafswm bod angen ymestyn yr arwyddion cyfyngder cyflymdra hyd at y byngalos neu bont Rhyd y Gwial. Cysylltir eto ag Andrew Jones gan nad oes dim byd wedi digwydd ers y cyfarfod safle a gynhaliwyd fisoedd yn ôl. Cynigiwyd hefyd leihau'r arwydd cyfyngder cyflymder i 20 mya drwy'r pentref a gofyn am arwydd ddigidol i ddangos cyflymder. Pwysleisir bod cyfleusterau megis tafarn, ysgol feithrin parc a siop yng Nghemaes eto does dim cyfynger cyflymder wedi digwydd er bod hyn wedi digwydd mewn yng Nghomins lle nad oes cyfleusterau o'r math.

Nodwyd bod trafodaethau eisoes wedi bod am yr angen i adolygu cyfyngder cyflymder mewn mannau eraill yn yr ardal:

**i.** Glantwymyn. Tybir lle tybir bod 40 mya yn rhy uchel yn enwedig o ystyried bod yno arhosfa bysys, swyddfa bost a siop, ysgol, a meithrinfa. Gwneir cais gyflymder cyflymder o 30 neu 20 mya. Cynigir am ail-osod yr arwyddion mewn mannau mwy effeithiol.

**ii.** Ffordd Ffriddgate drwy Lanwrin i Dop y Grofft. O brofiad pobl leol mae'r traffig a chyflymder y traffig hwnnw wedi cynnyddu'n sylweddol yn dilyn agoriad y bont newydd ym Machynlleth. Mae dwy ddamwain wedi digwydd yn ddiweddar ac mae pryderon difrifol yn bodoli am ddiogelwch defnyddwyr ffordd gan gynnwys gyrrwyr a cherddwyr. Cynigir y byddai gosod cyfyngder cyflymder 20-30 mya ar hyd y ffordd gyfan yn fuddiol.

Cytunwyd gan bawb y dylid tynnu sylw'r cyrff priodol at y materion hyn unwaith eto.

**19703:** **Polisi mynwentydd -** Penderfynwyd gofyn am enghreifftiau o bolisïau gan eraill.

**19704: Arwydd uniaith Saesneg Darowen -** Mae'r mater hwn wedi cael ei ddatrys ac mae'r arwydd erbyn hyn yn ddwyieithog

**19705: Adroddiadau'r Cynghorwyr - Gwenfair Rhys-Davies Crynodeb o Bwyllgor y Fforwm Cleifion 17/09/24**

*Gwybodaeth o'r Feddygfa gan Dr Shaw.*

- *I gael apwyntiad gyda meddyg yn weddol fuan, mae'n well peidio gofyn am feddyg penodol.*
- *Fferyllydd Clinigol wedi dechrau gweithio yn y Feddygfa. Mae Dr Shaw yn dweud bod ganddo brofiad helaeth ac y bydd yn gaffaeliad.*
- *Nyrs Practis newydd wedi dechrau hefyd ac yn medru siarad Cymraeg, hyn eto'n gaffaeliad.*
- *Mae'r practis yn derbyn hyfforddeion meddyg teulu. Maent eisoes wedi cymhwyso fel meddygon ond am gymhwyso fel meddyg teulu hefyd.*
- *I gael cymorth iechyd meddwl, gellir deialu 111 ac yna pwyso 2 a bydd yn mynd yn uniongyrchol at arbenigwyr yn y maes.*

*Materion eraill:*

- *Newidiadau darparu gofal ysbytai cymunedol Bwrdd Iechyd Addysgol Powys*

*Diolchwyd i Gyngor Glantwymyn am drefnu'r cyfarfod cyhoeddus. Roedd teimlad cryf fod angen i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r modd mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei redeg a'i ariannu. Cytunodd aelod o'r fforwm ysgrifennu llythyr ar ein rhan i'r Gweinidog Iechyd. Cytunwyd hefyd i ofyn i'n Cynghorwyr Sir weithredu.*

- *Roedd pryder fod gwasanaeth Gofal Dydd i bobl hyn oedd yn arfer cael ei ddarparu yn yr hen Ysbyty, Ffordd Forge wedi dod i ben ers peth amser. Roedd gobaith y byddai'n ail ddechrau ond dim sicrwydd pendant.*
- *Mae prosiect ar y gweill ar y cyd gyda 'Versus Arthritis' i gynorthwyo pobl i gael mynediad at yr holl wasanaethau digidol sydd ar gael.*

**Dafydd Evans – Ysgol Glantwymyn –** Cafwyd gwybod bod gwelliannau i'r Ganolfan ar y gweill

**19:706: Ffyrdd a Phontydd**

- Angen arwyddion cyfyngder cyflymder o dop y Grofft i Ffridd Gate yn enwedig gan fod traffig cynyddol o ganlyniad i bont newydd Machynlleth – damweiniau cynyddol
- Potholes enfawr yn Narowen ger trofa Gwernbere i Dŷ nant
- Dylid archebu halen i'r ffyrdd yn enwedig gan mai Llanidloes yw'r depot agosach.
- Dŵr Cemaes – mae dŵr yn dal i gronni ar y ffordd ger eglwys Cemaes
- Mae twll ar ochr y ffordd ger Aberffrydlan
- Dwr yn cronni ar y ffordd ger Aberffrydlan
- Polyn gwyn ger Grey House/troad Aberffrydlan wedi cael ei fwrw ac angen ei sythu/polyn Newydd

**19707: Unrhyw fater arall**

- Dymuna'r Cyngor ddiolch i Andy Rowlands am ei waith gwerthfawr gydag Ecodyfi a'i gefnogaeth i brosiectau cymunedol ac amgylcheddol a dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad o Ecodyfi. Anfonir llythyr
  Ward Angharad Tregaron – straen ar aber
- Tocio coeden Llanwrin- nodwyd bod Paul Hughes wedi clirio cryn ganghenau a choed o fynwent Llanwrin wrth gyflawni ei waith torri gwair yno a bod y gwaith tocio eto i'w wneud gan Jon Anderson yn ôl y trefniant.
- Y Blewyn Glas - Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r Blewyn Glas a chyfraniadau'r Cyngor ynddo. Nodir nad oedd cyhoeddiad o'r Blewyn Glas ym mis Awst ac nad oedd cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin. Gwneir pob ymdrech bosib fel arall i gyflwyno cyfraniadau.
- Mynegwyd pryderon am Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn bwriadu cau ysbyty Tregaron ac o bosib, Ward Angharad, (gofal plant) ym Mronglais. Onid yw hyn yn esgeulustod ar ddyletswyddau? Effeithir ar y ddarpariaeth ym Mro Ddyfi.
- Mainc top y grofft angen sylw.

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 27.6.24**

- Derbyniwyd llythyr i ddiolch am y cyfraniadad at gostau torri gwair Capel Cemaes.
- Nodwyd y dylid cysylltir â Simon Ling EDF i holi eto am y cytundeb ar ôl iddo ddod i gyfarfod 25/5/23 a sicrhau'r taliadau priodol.